Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Meinir Ebbsworth**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion**
**Corporate Lead Officer : Schools**

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

| | |
|---|---|
| Dyddiad<br>Date | 17eg o Ragfyr, 2020 |
| Gofynnwch am<br>Please ask for | Mrs.Meinir Ebbsworth |
| Llinell uniongyrchol<br>Direct line | 01545 570881 |
| Fy nghyf<br>My ref | ME/SAD |
| Ebost<br>Email | Clic@ceredigion.gov.uk |

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Ddoe, gosododd Llywodraeth Cymru y wlad yn Haen 4 o fesuriadau i geisio rheoli lledIad Coronafeirws, a hynny o'r 24ain o Ragfyr, 2020 ymlaen. Rhoddwyd gwybodaeth i Awdurdodau Lleol neithiwr ynghylch hyblygrwydd am drefniadau agor ysgolion ym mis Ionawr 2021. Nodwyd y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i bob ysgol fod wedi agor yn llawn i ddisgyblion erbyn y 18fed o Ionawr, 2021.

Ysgrifennaf atoch i egluro beth fydd y sefyllfa o ran trefniadau ysgolion ym mis Ionawr yng Ngheredigion.

Bydd dydd Llun, y **4ydd o Ionawr**, 2021 a dydd Mawrth, y **5ed Ionawr** yn ddiwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd a pharatoi yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd, ac felly ni fydd disgyblion ar safle'r ysgol na chwaith yn cael eu dysgu o bell.

**Yn y sector Gynradd**, bydd athrawon yn dysgu o bell o ddydd Mercher, y 6ed hyd at ddydd Gwener, yr 8fed o Ionawr, 2021.

Os oes angen, bydd plant gweithwyr allweddol rheng flaen yn medru mynychu eu hysgol o ddydd Mawrth, y 5ed o Ionawr, 2021 ymlaen ar gyfer gofal plant. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gadw'r disgyblion oddi fewn i'w grwpiau cyswllt. Bydd angen i'r disgyblion ddod â thocyn bwyd i'r ysgol ar y diwrnodau hynny.

Anelir at agor ysgolion yn llawn ar gyfer pob disgybl cynradd o **ddydd Llun, 11eg Ionawr** ymlaen.

Yn y **sector Uwchradd,** bydd disgyblion blynyddoedd **11, 12 a 13** yn mynychu safle'r ysgol o **ddydd Mercher, y 6ed o Ionawr, 2021** ymlaen. Bydd trafnidiaeth arferol yn cael eu darparu ar eu cyfer.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

**Prif Weithredwr / Chief Executive :** Eifion Evans
**Cyfarwyddwr Corfforaethol / Corporate Director :** Barry Rees

Bydd disgyblion **blynyddoedd 7-10** yn derbyn darpariaeth dysgu o bell rhwng dydd Mercher y 6ed hyd at ddydd Gwener, yr 8fed o Ionawr, 2021.

Os oes angen, bydd plant gweithwyr allweddol rheng-flaen blynyddoedd 7 ac 8 yn medru mynychu eu hysgol o ddydd Mawrth, y 5ed o Ionawr, 2021 ymlaen ar gyfer gofal plant. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gadw'r disgyblion oddi fewn i'w grwpiau cyswllt. Bydd angen i'r disgyblion ddod â thocyn bwyd i'r ysgol ar y diwrnodau hynny.

Anelir at agor ysgolion yn llawn ar gyfer pob disgybl Uwchradd o **ddydd Llun, yr 11eg o Ionawr**, **2021** ymlaen.

Bydd ein Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol Arbenigol a leolir ar gampws rhai ysgolion yn agor yn llawn i ddisgyblion cynradd ac uwchradd ar y **5ed o Ionawr, 2021**. Yn yr un modd, bydd yr Uned Gyfeirio Disgyblion hefyd yn agor yn llawn ar yr un dyddiad. Bydd trafnidiaeth yn ôl yr arfer ar gyfer y disgyblion hyn.

**Diffiniad o weithwyr rheng flaen allweddol**
Bydd ysgolion yn darparu gofal plant i ddisgyblion sydd â 2 riant neu riant sengl yn gweithio i wasanaeth rheng flaen y gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Holwn ichi gysylltu gyda'ch hysgol fory (18.12.20) os ydych chi angen ac yn gymwys i ofal plant rhwng 5-8fed Ionawr.

Bydd plant sy'n gymwys i **Brydau Ysgol Am Ddim** yn derbyn taleb neu daliad am y cyfnod hwn, a bydd y rhain yn cael eu hanfon allan yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Ionawr.

Os ydy'ch plentyn neu unrhyw aelod o'ch aelwyd yn datblygu symptomau Covid-19 yna ffoniwch 119 am brawf neu archebu drwy https://gov.wales/apply-coronavirus-covid-19-test.

Pe bai'ch plentyn yn derbyn canlyniad **prawf positif** dros gyfnod y gwyliau holwn ichi e-bostio SchoolCovidSymptoms@ceredigion.gov.uk gydag enw'ch plentyn, blwyddyn ac ysgol. Mae'r cyfnod hunan ynysu bellach wedi newid i 10 diwrnod yn lle 14 diwrnod.

Deallwn ei fod yn gyfnod ansicr i bawb ac rydym wir yn gwerthfawrogi eich cyd-weithrediad. Ganol Rhagfyr, mae'n anodd darogan pa sefyllfa y byddwn ynddi erbyn wythnos gyntaf Ionawr. Gobeithiwn bod y trefniadau hyn yn rhoi eglurder ichi o ran darpariaeth wythnos 5ed -8fed o Ionawr, 2021.

Dymunwn Nadolig Llawen iawn ichi gan obeithio'n daer y bydd 2021 yn flwyddyn llawer mwy cadarnhaol i bawb.

Yn gywir,

MBEbbsworth.

Meinir Ebbsworth
Prif Swyddog Addysg
Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion a Diwylliant